



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011

Prifysgol Glyndŵr – Dyddiad Dyroddi: 29/09/2017

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Diwrnod Gosod
1	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	01/04/2018
2	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn (“A”) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw’n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi—</p> <p>(a) cadw cofnod o ddymuniad A,</p> <p>(b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac</p> <p>(c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 2 mewn perthynas â’r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">o myfyrwyr cofrestredig	01/04/2018
3	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy’n aelodau o’r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i’r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os—</p> <p>(a) yw’r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny,</p>	01/04/2018

		<p>rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;</p> <p>(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 3 mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ myfyrwyr cofrestredig 	
4	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.	01/04/2018
5	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthy ch yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	01/04/2018
6	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	01/04/2018
7	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddatgan—</p> <p>(a) mewn gohebiaeth, a</p> <p>(b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,</p> <p>eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.</p>	01/04/2018

8	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	01/04/2018
9	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	01/04/2018
11	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	01/04/2018
12	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
13	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	01/04/2018
14	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	01/04/2018
15	Safonau Cyflenwi	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â	01/04/2018

	Gwasanaethau	galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	
16	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	01/04/2018
17	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	01/04/2018
19	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a (b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.	01/04/2018
20	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	01/04/2018
21	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyich yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny	01/04/2018

		<p>ymlaen yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 21 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ile bo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a ○ Ile nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw 	
22	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	01/04/2018
24	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	01/04/2018
24A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	01/04/2018
26	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, ac <ul style="list-style-type: none"> (a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chŵyn am A neu gŵyn a wnaed gan A; (b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu (c) mai diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A, rhaid ichi— <ul style="list-style-type: none"> (i) gofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (ii) hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw. 	01/04/2018

26A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod— (a) os— (i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chwyn am yr unigolyn ("A") a wahoddwyd neu gwyn a wnaed gan A; (ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch A; neu (iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i A; a (b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.	01/04/2018
27	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	01/04/2018
27A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	01/04/2018
27D	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	01/04/2018
29	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, ac (a) bod y cyfarfod yn ymwneud â chwyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gwyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;	01/04/2018

		<p>(b) bod y cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu</p> <p>(c) mai diben y cyfarfod hwnnw yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; rhaid ichi—</p> <p>(i) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; a</p> <p>(ii) hysbysu'r unigolyn hwnnw (neu'r unigolion hynny) y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.</p>	
29A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg mewn cyfarfod—</p> <p>(a) os ydych wedi gwahodd mwy nag un person i'r cyfarfod;</p> <p>(b) os—</p> <p>(i) yw'r cyfarfod yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd neu gŵyn a wnaed am un neu ragor o'r unigolion hynny;</p> <p>(ii) yw'r cyfarfod yn ymwneud ag achos disgyblu ynghylch un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; neu</p> <p>(iii) diben y cyfarfod yw darparu cymorth myfyrwyr i un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd; ac</p> <p>(c) os yw o leiaf un o'r unigolion hynny wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p>	01/04/2018
30	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored—</p> <p>(a) i'r cyhoedd, neu</p> <p>(b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol,</p>	01/04/2018

		rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	
31	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored— (a) i'r cyhoedd, neu (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	01/04/2018
32	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored— (a) i'r cyhoedd, neu (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, rhaid ichi— (i) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (ii) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	01/04/2018
33	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored— (a) i'r cyhoedd, neu (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg— (i) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	01/04/2018

		<p>Rhaid cydymffurfio â safon 33 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pan fo gwahoddiad neu hysbyseb i'r cyfarfod wedi gofyn i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr sydd o fewn carfan benodol eich hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, a bod dim un ohonynt wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. 	
34	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored— (a) i'r cyhoedd, neu (b) myfyrwyr sydd o fewn carfan benodol, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	01/04/2018
35	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	01/04/2018
36	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	01/04/2018
		<p>Rhaid cydymffurfio â safon 36 ymhob amgylchiad ac eithrio mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn</p>	

		<p>y digwyddiad.</p> <p>Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn y digwyddiad, rhaid cydymffurfio ymhob amgylchiad ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ile bo'n angenrheidiol i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg ddarparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a ○ Ile nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw. 	
37	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	01/04/2018
38	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	01/04/2018
40	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael at ddiben unrhyw gwestiynau a ofynnir gan y gynulleidfa yn ystod y ddarlith neu ar ôl y ddarlith— (a) pan fo pwnc y ddarlith gyhoeddus yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o'r fath, neu (b) pan fo'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliad yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o'r fath.	01/04/2018
40A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus ac y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg fod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.	01/04/2018
41	Safonau Cyflenwi	Os byddwch yn trefnu seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi	01/04/2018

	Gwasanaethau	sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â deunydd neu arwyddion a arddangosir gennych yn y lleoliad ac mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a ddarperir am drefn y digwyddiadau yn y seremoni (pa un ai ar ffurf electronig, ysgrifenedig neu lafar).	
42	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn seremoni raddio neu wobrwyo, rhaid ichi— (a) gofyn i bob person a wahoddwyd a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw person (neu o leiaf un o'r personau hynny) wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y seremoni— (i) darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, neu (ii) darparu cyfieithiad Saesneg ysgrifenedig yn y seremoni.	01/04/2018
43	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd neu at ddefnydd myfyrwyr yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg	01/04/2018
51	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiwnau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	01/04/2018
52	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	01/04/2018
53	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd neu i fyfyrwyr gael ei llunio yn Gymraeg.	01/04/2018
53A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	01/04/2018
53B	Safonau Cyflenwi	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai	01/04/2018

	Gwasanaethau	ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	
54	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	01/04/2018
55	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan. Rhaid cydymffurfio â safon 55 erbyn 1 Hydref 2018 ymhob amgylchiad ac eithrio'r: ○ fewnrwyd i fyfyrwyr Mewn perthynas â'r fewnrwyd i fyfyrwyr, rhaid cydymffurfio â safon 55 erbyn 1 Hydref 2019.	01/10/2018
56	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun hafan eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich gwefan (neu, pan fo'n berthnasol, bod eich hafan Gymraeg) yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg	01/04/2018

		<p>mewn perthynas â hafan eich gwefan.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 56 ymhob amgylchiad ac eithrio'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ fewnwyd i fyfyrwyr 	
57	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi tudalen newydd ar eich gwefan neu'n diwygio tudalen, rhaid ichi sicrhau—</p> <p>(a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 57 ymhob amgylchiad ac eithrio'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ fewnwyd i fyfyrwyr 	01/04/2018
58	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 58 ymhob amgylchiad ac eithrio'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ fewnwyd i fyfyrwyr 	01/04/2018
59	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 59 erbyn 1 Hydref 2018 ymhob amgylchiad ac eithrio'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ fewnwyd i fyfyrwyr <p>Mewn perthynas â'r fewnwyd i fyfyrwyr, rhaid cydymffurfio â</p>	01/10/2018

		safon 59 erbyn 1 Hydref 2019.	
60	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg yn Gymraeg ar eich mewnwyd i fyfyrwyr, eich gwefannau rhith-ddysgu a'ch gwefannau porth dysgu.	01/04/2018
61	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	01/04/2018
62	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid cydymffurfio â safon 62 yn yr amgylchiadau isod: ○ wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar eich cyfrifon corfforaethol ac adrannol	01/04/2018
63	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	01/04/2018
64	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw.	01/10/2018
65	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	01/04/2018
66	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu	01/04/2018

		yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	
67	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	01/04/2018
68	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg. Rhaid cydymffurfio â safon 68 mewn perthynas â'r: ○ brif wasanaeth derbynfa	01/10/2018
69	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn trefnu ymweliad neu apwyntiad i berson ("P") ymlaen llaw a fydd yn golygu y bydd P yn dod i'ch derbynfa, rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno cael gwasanaeth derbynfa Cymraeg (oni bai eich bod yn gwybod eisoes a yw P yn dymuno cael y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg). Rhaid cydymffurfio â safon 69 mewn perthynas â: ○ pob gwasanaeth derbynfa arall	01/10/2018
69A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi ddarparu gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg i berson ("P") os byddwch wedi trefnu ymweliad neu apwyntiad ymlaen llaw i P, a— (a) bod P wedi eich hysbysu ymlaen llaw ei fod yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, neu (b) eich bod eisoes yn gwybod bod P yn dymuno cael y gwasanaeth yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 69A mewn perthynas â:	01/10/2018

		<ul style="list-style-type: none"> ○ pob gwasanaeth derbynfa arall 	
70	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Os nad oes gwasanaeth derbynfa wyneb yn wyneb Cymraeg ar gael gennych, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg ar gael dros ffôn yn eich derbynfa.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 70 mewn perthynas â:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ pob gwasanaeth derbynfa arall, a ○ lle nad oes ymweliad neu apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw 	01/10/2018
71	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 71 mewn perthynas â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ brif wasanaeth derbynfa 	01/10/2018
72	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.</p>	01/10/2018
73	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.</p>	01/04/2018
74	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.</p>	01/04/2018
75	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	<p>Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant neu gymorth ariannol gael eu cyhoeddi yn</p>	01/04/2018

		Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	
76	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	01/04/2018
76A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant neu gymorth ariannol a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	01/04/2018
78	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael cais am grant neu gymorth ariannol yn Gymraeg, a bod angen cyf-weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais rhaid ichi— (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn i'r ymgeisydd allu defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a (b) os yw'r ymgeisydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	01/04/2018
79	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant neu gymorth ariannol, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	01/04/2018
80	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	01/04/2018

		Rhaid cydymffurfio â safon 80 yn yr amgylchiadau isod: (a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg	
81	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	01/04/2018
81A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).	01/04/2018
83	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweid â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi— (a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweid, a (b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweid, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (oni bai eich bod yn cynnal y cyfweid yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	01/04/2018
84	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	01/04/2018
85	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	01/04/2018

86	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	01/04/2018
87	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
88	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn cynnig cyfle dysgu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg. Rhaid cydymffurfio â safon 88 ymhob amgylchiad, ac eithrio: ○ pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 89 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cyfle dysgu hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg	01/04/2018
89	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn datblygu cyfle dysgu sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cyfle hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.	01/04/2018
90	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hysbysu eich myfyrwyr y caniateir i unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi fel rhan o asesiad neu arholiad gael ei gyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd gwaith a gyflwynir ichi yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw.	01/04/2018
90A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi beidio â thrin unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o'r asesiad hwnnw neu'r arholiad hwnnw.	01/04/2018
92	Safonau Cyflenwi	Pan fydd myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr yn gwneud cais ichi am lety	01/04/2018

	Gwasanaethau	preswyl, rhaid ichi ganiatáu i'r myfyrwyr hynny fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a gaiff ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg.	
92A	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid ichi hybu ymhlith eich myfyrwyr a'ch darpar fyfyrwyr y gallu iddynt fynegi dewis am lety (neu ran o lety) a gaiff ei neilltuo ar gyfer siaradwyr Cymraeg.	01/04/2018
93	Safonau Cyflenwi Gwasanaethau	Os ydych yn dyrannu tiwtor personol i fyfyrwr ("A") rhaid ichi— (a) gofyn i A a yw'n dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, a (b) os yw A yn eich hysbysu ei fod yn dymuno cael tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg i A.	01/04/2018
94	Safonau Llundio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
95	Safonau Llundio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
96	Safonau Llundio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y	01/04/2018

		byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	
97	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
98	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
99	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	01/04/2018
100	Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi ar ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol— (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n	01/04/2018

		<p>andwyol), y byddai dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol yn eu cael ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant neu ddarparu cymorth ariannol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	
101	Safonau Llundio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	01/04/2018
102	Safonau Llundio Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr</p>	01/04/2018

		<p>ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	
103	Safonau Llundain Polisi	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	01/04/2018
104	Safonau Llundain Polisi	<p>Pan fyddwch yn datblygu neu'n addasu cwrs (neu unrhyw gydran o gwrs), rhaid ichi ystyried—</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r cwrs hwnnw yn eu cael ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(b) sut y byddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut na fyddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	01/04/2018
105	Safonau gweithredu	<p>Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi</p>	01/04/2018

		gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.	
106	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	01/04/2018
107	Safonau gweithredu	Rhaid ichi— (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	01/04/2018
108	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	01/04/2018
109	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	01/04/2018
110	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	01/04/2018
111	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi— (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg,	01/04/2018

		yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	
112	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
113	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
114	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
115	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
116	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
117	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
118	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	01/10/2018
119	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff— (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	01/04/2018
119A	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	01/04/2018
121	Safonau gweithredu	Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff,	01/04/2018

		<p>rhaid ichi—</p> <p>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;</p> <p>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol;</p> <p>ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (oni bai eich bod yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>	
122	Safonau gweithredu	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff—</p> <p>(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef,</p> <p>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.</p>	01/04/2018
123	Safonau gweithredu	<p>Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.</p>	01/04/2018
123A	Safonau gweithredu	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a</p> <p>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.</p>	01/04/2018

125	Safonau gweithredu	Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi— (a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a (b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	01/04/2018
126	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.	01/04/2018
127	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	01/04/2018
128	Safonau gweithredu	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.	01/10/2019
131	Safonau gweithredu	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i	01/10/2019

		dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	
132	Safonau gweithredu	Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	01/04/2018
133	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnwyd yn Gymraeg.	01/10/2019
134	Safonau gweithredu	Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	01/04/2018
135	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	01/10/2018
136	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn— (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	01/10/2018
137	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant i staff sy'n darparu cyngor gyrfaoedd ar werth sgiliau yn y Gymraeg yn y sector cyflogaeth.	01/10/2018
138	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith— (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	01/10/2018

139	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	01/10/2018
140	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu— (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru); (b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.	01/10/2018
141	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	01/04/2018
142	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	01/04/2018
143	Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	01/04/2018
144	Safonau gweithredu	Rhaid ichi roi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny.	01/04/2018
144A	Safonau gweithredu	Rhaid ichi hybu ymhlith aelodau'r staff wisgo bathodyn sy'n cyfleu bod aelod o staff yn gallu siarad Cymraeg.	01/04/2018
145	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn	01/04/2018

		<p>gymwys—</p> <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	
145A	Safonau gweithredu	<p>Os byddwch wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—</p> <p>(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a</p> <p>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.</p>	01/04/2018
146	Safonau gweithredu	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</p>	01/04/2018
146A	Safonau gweithredu	<p>Os byddwch yn cyhoeddi—</p> <p>(a) ffurflenni cais am swyddi;</p> <p>(b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;</p> <p>(c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi;</p> <p>(ch) swydd-ddisgrifiadau;</p> <p>rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.</p>	01/10/2018
146B	Safonau gweithredu	<p>Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael</p>	01/04/2018

		ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	
148	Safonau gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi— (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu mewn unrhyw ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).	01/04/2018
149	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.	01/04/2018
150	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	01/04/2018
151	Safonau gweithredu	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	01/04/2018
152	Safonau gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	01/04/2018

154	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	01/04/2018
155	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
156	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	01/04/2018
157	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
158	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 134), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	01/04/2018
159	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o— (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 135), a (b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 135, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	01/10/2018
161	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 145) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	01/04/2018
162	Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol,	01/04/2018

		<p>o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 145) fel swyddi sy'n gofyn—</p> <p>(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;</p> <p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu</p> <p>(ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	
163	Atodol - Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	01/04/2018
164	Atodol - Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	01/04/2018
165	Atodol - Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—</p> <p>(i) goruchwylio'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi</p>	01/04/2018

		<p>gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	
166	Atodol - Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	01/04/2018
167	Atodol - Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	01/04/2018

168	Atodol - Safonau Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
169	Atodol - Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	01/04/2018
170	Atodol - Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	01/04/2018
171	Atodol - Safonau Llunio Polisi	Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac (c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch	01/04/2018

		swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
172	Atodol - Safonau Llundain Polisi	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	01/04/2018
173	Atodol - Safonau Llundain Polisi	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
174	Atodol - Safonau Llundain Polisi	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
175	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael—	01/04/2018
		(a) ar eich gwefan, a	

		(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
176	Atodol - Safonau gweithredu	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnwyd.</p>	01/04/2018
177	Atodol - Safonau gweithredu	<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnwyd.</p>	01/04/2018
178	Atodol - Safonau gweithredu	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—</p>	01/04/2018

		<p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 158);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 159);</p> <p>(ch) nifer yr aelodau o staff sy'n gwisgo bathodyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 160);</p> <p>(d) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—</p> <ul style="list-style-type: none">(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, <p>(ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 162);</p> <p>(dd) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p>	
--	--	---	--

		(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	
179	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
180	Atodol - Safonau gweithredu	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	01/04/2018
181	Atodol - Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	01/04/2018
182	Atodol - Safonau Cadw Cofnodion	Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	01/04/2018

Meri Huws

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad: 29/09/2017